**The Grange, Gwenfô - Polisi Gosod a Gwerthu Tai’n Lleol**

Nod Polisi Gosod a Gwerthu Tai’n Lleol The Grange, Gwenfô, yw sicrhau bod y tai fforddiadwy newydd yn The Grange yn gynaliadwy ac y byddant yn dod yn rhan o'r gymuned leol lle mae'r preswylwyr yn dymuno aros, a dangos ymrwymiad i’r ardal lle byddant yn byw. I gyflawni’r nod hwn, cytunwyd ar bolisi gosod a gwerthu tai’n lleol rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chymdeithas Tai Wales & West â Chyngor Cymuned Gwenfô, sy’n cynrychioli preswylwyr ardal Cyngor Cymuned Gwenfô.

Dylai pob achos o osod a gwerthu tai gydymffurfio â phrif egwyddorion y polisi gosod a gwerthu tai’n lleol ar gyfer Parc St Lythan, Gwenfô, sef:

1) Rhoi blaenoriaeth i’r ymgeiswyr hynny â chysylltiad lleol ag ardal Cyngor Cymuned Gwenfô.

Bydd diffiniad cysylltiad lleol fel a ganlyn:

- Wedi bod yn byw yn ardal Cyngor Cymunedol Gwenfô am y 12 mis diwethaf neu 3 o’r 5 mlynedd diwethaf.
- Rhieni neu deulu agos (*gweler y nodyn isod*) sy’n byw ar hyn o bryd yn ardal Cyngor Cymuned Gwenfô.
- Mewn cyflogaeth barhaol ar hyn o bryd yn ardal Cyngor Cymuned Gwenfô ac wedi dal y swydd honno ers o leiaf flwyddyn.
- Ymddeol o lety clwm yn ardal Cyngor Cymuned Gwenfô.

*Sylwer: Mae aelodau teulu agos yn cynnwys gŵr neu wraig, mam-gu neu dad-cu, plant, wyrion ac wyresau, brodyr a chwiorydd. Caiff llys-berthnasau a hanner perthnasau eu hystyried yn berthnasau gwaed llawn.*

Ar ôl ystyried pwynt (1) uchod, caiff eiddo wedi rhentu eu dyrannu yn unol â pholisi presennol Homes4U – yn ôl blaenoriaeth band a pha mor hir maent wedi cofrestru gyda Homes4U.

Os oes mwy o ymgeiswyr (blaenoriaeth 1) na sydd o eiddo perchentyaeth cost isel, rhoddir blaenoriaeth yn ôl hyd y cyfnod ers cofrestru ag Aspire2Own.

1b) Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr sydd â chysylltiad cryf â’r gymuned leol, gan gynnwys – ond nid yn gyfyngedig i – y rhai sy’n gweithio’n wirfoddol mewn sefydliad cymunedol yng Ngwenfô, y mae ei swyddfeydd yng Ngwenfô.

2) Os nad oes digon o ymgeiswyr o Lefel Blaenoriaeth 1, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr â chysylltiad teuluol estynedig ag ardal Cyngor Cymunedol Gwenfô, gan gynnwys ewythrod, modrybedd, neiaint a nithoedd – gan gynnwys llys-berthnasau a hanner perthnasau.

3) Yn yr achos annhebygol nad oes digon o ymgeiswyr wrth ystyried pwyntiau 1) a 2) uchod, caiff ymgeiswyr o wardiau eraill y Fro wledig (Saint-y-brid, Llandŵ/Ewenni, Y Bont-faen, Llanbedr-y-fro, Gwenfô, Dinas Powys, Llandochau a Sili heb fod mewn trefn benodol) eu hystyried.

4) Yn olaf, os nad oes ymgeiswyr ar ôl yn yr ardaloedd hyn hefyd, yna gellir estyn gosodiadau i ymgeiswyr Homes4U/Aspire2Own sy'n byw yng ngweddill Bro Morgannwg.

Wrth osod eiddo yn The Grange, byddwn yn paru maint y llety gydag anghenion yr aelwyd, yn unol â'r polisïau gosod tai cyfredol. Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol yn achos ceisiadau am eiddo Perchentyaeth Cost Isel.

Nid yw unrhyw ran o'r ddogfen hon yn eithrio ceisiadau newydd i Homes4U neu Aspire2Own a dylid nodi mai i brynwyr tro cyntaf y mae eiddo perchentyaeth cost isel ar gael.

I'r holl ymgeiswyr sy'n byw yn The Grange, cynhelir ymweliadau cartref gan y Gymdeithas Dai berthnasol a gofynnir am eirdaon tenantiaeth, gan gynnwys i'r ymgeiswyr hynny sy'n byw mewn llety preifat.

Bydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru a Chyngor Bro Morgannwg yn rhoi adborth ar ganlyniadau'r polisi gosod i Gyngor Cymuned Gwenfô.